


Tystysgrif Sgiliau Iaith



Asesiad Ysgrifenedig Tasg 1 – Cywiro

Aseiad Ysgrifenedig

Tasg 1 – Cywiro

- Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys **tua 22 o wallau** gramadegol. Bydd disgwyl i chi gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn **print trwm**.
- Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon mae'n rhaid eu cywiro i ennill y marc.
- Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- Byddwch yn ofalus – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau hefyd neu bydd angen i chi ddewis opsiwn cywir.



Meini Prawf Tasg 1

Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn.

Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol

*(cyfanswm posibl, 20 marc):
(20% o farciau'r papur)*



Cyngor wrth ateb Tasg 1



- Copïwch a gludwch y paragraff o dan y cwestiwn gwreiddiol.
- Yna gwnewch eich newidiadau mewn print trwm (bold)
- Does dim angen newid arddull y darn dim ond cywiro gwallau yn unig.
- Peidiwch â threulio gormod o amser ar y cwestiwn hwn. 20 o farciau yw gwerth y cwestiwn felly y cyngor ydy tua 20 munud ar y fwyaf.
- Gallwch chi ateb y cwestiynau yn yr asesiad mewn unrhyw drefn.
- Os ydych chi'n cywiro gormod fyddwch chi ddim yn colli marciau. Dim ond y cywiriadau cywir sy'n cael eu marcio.

Gwyliwch y fideo sy'n cynnwys cyngor pellach.



Asesiad Ysgrifenedig

Dyma gasgliad o adnoddau i'ch cynorthwyo i baratoi yn effeithiol at asesiad ysgrifenedig y Dystysgrif Sgiliau Iaith.

Gwyliwch y fideo Cyntaf – Cywiro

<https://sway.office.com/vE4lkqDw0tAGN1K4?ref=email&loc=play>

[Go to this Sway](#)

Cofiwch am yr adnoddau yn y sesiwn ddiwethaf yn dangos sut i ddefnyddio Cysill / Cysgeir.
Dyma grynodedb os ydych chi am wyllo eto.



Offer Iaith Cyfrifiadurol

Dyma arweiniad ar ba offer iaith cyfrifiadurol fydd yn ddefnyddiol wrth ymgeisio am y Dystysgrif Sgiliau Iaith

<https://sway.office.com/DICeeTQkGFkqp6HH?ref=Link&loc=play>

Cyn-bapurau.

- Y ffordd orau i ymarfer ydy edrych ar gyn-papurau.
(ffolder cyn-bapurau)
- Gallwch chi gywiro'r paragraff ac yna gwirio eich gwaith drwy edrych ar y copiau sy'n cynnwys atebion.
Cofiwch does dim rhaid rhoi rhesymau – dim ond gywiro'r gwall i ennill y marciau.
- Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gallu cywiro popeth!
Anelwch at isafswm o dros hanner marciau i lwyddo yn y papur.



Math o wallau

Mae'r math o wallau sy'n codi yn y cwestiwn hwn yn gallu bod yn amrywiol iawn. Ond dyma i chi rai syniadau:



- Amser cywir y ferf
- Ystyr gair /geiriau bach
e.e. mai / mae, yw / i'w, mewn / yn
- Rhagenwau
- Arddodiaid
- Berfenwau a'r arddodiaid
- Sillafu / gwallau teipio
- hwn / hon
- Treiglo ar ôl enw benywaidd. e.e. y gath ddu hon.

- Treigladau meddal ar ôl Cyfarchion e.e. Prynhawn da bawb.
- Trefnolion e.e. Dyddiadau
- Rhifau + treigladau
- Geiriau unigol / lluosog
- Idiomau / ymadroddion Cymreig.



Tiwtor ar gael
Cofiwch gysylltu os
hoffech sgwrs neu
gymorth pellach.



Eich tiwtor iaith:

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcyddds.ac.uk

Rhif ffôn: 01267 225156



Polare